y Dinesydd

Cylchgrawn Cymraeg
Caerdydd a'r Cylch
Mehefin 1991
Rhif 174
Yn rhad ac am ddim

# DIFFYG CYNLLUNIO YN PERI GOFID I RIENI CAERDYDD

**Mae holl addysg gynradd Gymraeg plant 4 a 5 oed Caerdydd wedi ei roi yn y fantol eleni gan ddiffyg cynllunio a diddordeb Awdurdod Addysg De Morgannwg.**

Mae'r twf yn y niferoedd sy'n dymuno cael lle yn y sector addysg Gymraeg yn cynyddu'n flynyddol, ond cyndyn iawn yw'r Awdurdod i gynllunio ar gyfer hynny.

Ar 25 Mai cynhaliwyd rali yng Nghaerdydd, a drefnwyd gan y Mudiad Ysgolion Meithrin, i dynnu sylw at y diffygion sy'n bodoli ar hyn o bryd. Gorymdeithiodd dros 400 o rieni a phlant o Neuadd y Ddinas i'r Swyddfa Gymreig, a chyflwyno deiseb ag arni dros 2000 o enwau i'r Is-Ysgrifennydd Gwladol Syr Wyn Roberts.

Mae'r diffyg cynllunio yn golygu bod 20 yn fwy o blant 4 a 5 oed eleni yn dymuno cael addysg Gymraeg yn nwyrain y ddinas nag sydd o le ar eu cyfer.

Ysgol Bro Eirwg yn Llanrhymni yw'r unig ysgol gynradd Gymraeg sy'n gwasanaethu dwyrain Caerdydd, ac mae 82 o blant wedi gofyn am 62 o lefydd yn yr ysgol.

Bu galw ers tro gan rieni Caerdydd, ynghyd â MYM a'r sector addysg Gymraeg am ysgol gynradd newydd i ateb y galw yn ardaloedd y Rhâth, Sblot a Cathays.

Er i'r Awdurdod Addysg lusgo'u traed cyn cymryd unrhyw gamau pendant, maent bellach yn ystyried cynnig annex canolfan yr athrawon yng Ngabalfa fel yr ail ysgol Gymraeg i ddwyrain Caerdydd.

Er mai ystyried hyn mae'r Awdurdod ar hyn o bryd, mae bron yn sicr mai dyma fydd yn cael ei gynnig i rieni dwyrain Caerdydd.

Y bwriad gan yr Awdurdod yw creu cnewyllyn i'r ysgol newydd ym Mro Eirwg ym mis Medi eleni, gan symud y dosbarth i'r safle newydd ymhen y flwyddyn ar ôl addasu'r safle ar eu cyfer. Bwriad yr Awdurdod yw mai hwn fydd safle parhaol y seithfed ysgol gynradd Gymraeg yng Nghaerdydd.

Mae'r cynnig hwn, sy'n golygu creu ysgol newydd ar safle sydd wrth ochr un o ffyrdd prysuraf Caerdydd, sy'n anodd i'w chyrraedd, sy'n bell o'r ardal lle mae ei hangen (gyda'r problemau cludiant yn parhau), ac sydd heb unrhyw gyfleusterau fel caeau chwarae, wedi cael derbyniad llugoer dros ben gan MYM a rhieni Caerdydd.

Ar hyn o bryd, mae pwysau'n cael ei roi ar yr Awdurdod Addysg o du MYM i gadw'r bwriad o greu cnewyllyn yr ysgol newydd ym Mro Eirwg ym mis Medi, ond ar ôl hynny chwilio'n ddifrifol am safle gwell i'r ysgol newydd fydd yn ateb gofynion rhieni dwyrain Caerdydd, hyd yn oed pe bai'n cymryd rhyw ddwy flynedd i baratoi'r safle honno.

Ar ôl pwyso, daeth yr Awdurdod o hyd i safle Gabalfa ar ôl dau fis o chwilio. Yn ôl pob tebyg mae saith safle gwahanol yn nwyrain Caerdydd a ellid eu defnyddio ar gyfer ysgol gynradd Gymraeg newydd, er y byddai eu defnyddio yn groes i ddymuniad yr Awdurdod i beidio mwyach â lleoli ysgolion Cymraeg a Saesneg ar yr un safle.

Mae'r Awdurdod yn anfodlon ystyried y safleoedd hyn, sydd heb eu henwi, gan eu bod yn cynllunio ar gyfer twf yn y sector addysg Saesneg o fewn y deng mlynedd nesaf.

Hyd yma, mae'r Awdurdod Addysg wedi anwybyddu cyngor a gwybodaeth yr asiantau addysg Cymraeg am dwf addysg drwy gyfrwng yr iaith yng Nghaerdydd, gwybodaeth fyddai'n gadael iddynt allu cynllunio ar gyfer yr Gymraeg yn yr un modd â'r Saesneg.

Mae problemau dwyrain Caerdydd hefyd wedi effeithio ar addysg Gymraeg mewn rhannau eraill o'r ddinas. Yr ysgol sydd wedi ei heffeithio fwyaf yw Melingruffydd yn yr Eglwys Newydd.

Lle i 30 o blant newydd sydd yn yr ysgol ym mis Medi, ond bydd y prifathro yn cymryd 43, er bod yr Awdurdod Addysg yn gyndyn iawn i roi mwy o adnoddau i'r ysgol.

Nid yw'r Awdurdod chwaith wedi cyhoeddi eu dyfarniadau yn sgîl nifer fawr o apeliadau gan rieni yn erbyn bwriadau i roi lle i'w plant mewn ysgolion sy'n bell o'u cartrefi. Bydd yn rhaid i'r rhieni yma ddisgwyl am tua pythefnos arall cyn clywed wrth yr Awdurdod, er mai eu bwriad oedd rhoi gwybod dros fis yn ôl.

Mae hyn yn golygu hefyd nad yw prifathrawon yr ysgolion Cymraeg yn gallu paratoi cynlluniau addas ar gyfer y tymor newydd am nad ydyn nhw eto'n gwybod faint o blant fydd yn eu dosbarthiadau derbyn.

Mae'r ansicrwydd ynglŷn ag ysgol newydd Pencae yn Llandaf – safle gwreiddiol ysgol arloesol Bryntaf – bellach wedi ei ddileu. Bydd drysau'r ysgol newydd yn agor ym mis Medi.

Nos Fercher diwethaf (5 Mehefin) parhawyd â'r ymgyrch addysg Gymraeg mewn cyfarfod i danlinellu'r gwrthwynebiad i safle Gabalfa, ac i gydlynu'r pwysau sy'n cael ei roi ar Awdurdod Addysg De Morgannwg i beidio â llaesu dwylo wrth drafod addysg Gymraeg yng Nghaerdydd.

• *Sylwadau, tudalen 6*

y Dinesydd

**Cyfarchion penblwydd arbennig** *tudalen 5*

**Safbwyntiau addysg** *tudalen 6*

**Rhoi llwyfan i'r ddrama** *tudalen 7*

**Y Cyfrifiad yn cythruddo – Annwyl Ddinesydd** *tudalen 9*

**Eryrod Parc Ninian** *tudalen 10*

**Hwyl Gŵyl Ifan** *tudalen 11*

Amgueddfa Genedlaethol Cymru
Prif Adeilad, Parc Cathays, Caerdydd

# Mawl i'r Brenhinoedd

*(digwyddiad yn gysylltiedig â'r arddangosfa Celtiaid Cymru)*
Dadansoddiad beimiadol o ddarlleniadau o farddoniaeth gynnar

## Mehefin 14

Arddangosfa Celtiaid Cymru i'w gweld am 6.15pm
Perfformiad yn dechrau am 7.30pm

Tocynnau ar gael o'r Amgueddfa Genedlaethol,
Y Prif Adeilad, Parc Cathays, Caerdydd
neu drwy fonio 0222 397951

# CLERC CYLLID

Gwahoddir ceisiadau am y swydd hon yn Adran Gyllid S4C sy'n rheoli holl daliadau a chostau y Sianel.

Byddwch yn gyfrifol am gadw llyfrau arian S4C a chysoni bob mis, delio â'r banc yn ddyddiol ac archebu arian dramor.

Byddwch hefyd yn gyfrifol am baratoi cyflogau tua 100 o staff sydd yn cynnwys taliadau ar gyfer goramser i weithwyr shifft. Yn ogystal disgwylir i'r ymgeisydd gynhyrchu adroddiadau costau cyflogau ar gyfer y cyfrifon misol.

Byddai profiad o weithio mewn swyddfa gyllid yn fanteisiol.

Cyflog: circa £8,500

Am fwy o wybodaeth a ffurflen gais cysylltwch â:

**Mrs Mair Owen**
**S4C**
**Parc Ty Glas**
**Llanishen**
**Caerdydd CF4 5DU**
**Ffôn (0222) 747444**

**Dyddiad cau: 11.06.91**

S4C

# Gwyddoniadur Mawr y Plant

**Ydych chi'n boddi dan lanw o hen lyfrau?**
Anghofiwch am y chwilio a'r chwalu. Mae pob gwybodaeth dan a thu hwnt i'r haul yn y llyfr newydd hwn.

Dros 1,000 o dudalennau a 2,000 o luniau, mapiau, diagramau a ffotograffau mewn lliw llawn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf wedi ei chasglu a'i dosbarthu gan arbenigwyr yn eu maes.

Yn y siopau cyn diwedd Mehefin.
**Gwyddoniadur Mawr y Plant.**
Llyfr sy'n haeddu lle amlwg ym mhob cartref ac ysgol. A'r cyfan yn fargen am £19.95.
ISBN 0-7083-1098-2

*Cyhoeddwyd mewn chydweithrediad â Chyd-Bwyllgor Addysg Cymru a'r Cyngor Llyfrau Cymraeg gan Wasg Prifysgol Cymru, 6 Stryd Gwennyth, Cathays, Caerdydd CF2 4YD. Ffôn: 0222 231919 (24 awr)*

# celtic asset management cyf

AELOD O GYMDEITHAS REOLI CYFRYNGWYR,
RHEOLWYR A BROCERIAID ARIANNOL

*Rydym yn*

- **Rheoli ac yn cynghori ar gronfeydd buddsoddi**
- **Rheoli ac yn cynghori ar gronfeydd a chynlluniau pensiwn**
- **Arbenigo ar arbed treth ar etifeddiaeth**

*ac yn*

**Gwbl annibynnol a di-duedd fel y gallwn ddethol y "buddsoddiadau" mwyaf addas i'r unigolyn neu'r cwmni.**

**TŶ PENHILL,**
**11-13 HEOL PENHILL, CAERDYDD**
CF1 9UP
Ffôn (0222) 394021/4 Ffacs (0222) 383803

# Ebeneser yn blodeuo

Mis Mehefin yw mis y blodau i gapel Ebeneser eleni, pan gynhelir Gŵyl Flodau yno rhwng yr 20fed a'r 22ain o'r mis 'ma er mwyn codi arian tuag at achosion da.

Llawenhewch yw thema'r Ŵyl, a chydweithiodd y capel â Chlwb Blodau Rhiwbeina i greu a threfnu ochr artistig y dathliad blodeuog. Cafwyd cymorth siop Marks & Spencer hefyd sy'n noddi'r Ŵyl drwy gyfrannu yr holl flodau fydd eu hangen.

Yn ogystal â bod yn wledd i'r llygaid, bydd Gŵyl Flodau Ebeneser hefyd yn wledd i'r glust. Bydd yr organ yn mynd drwy'i phethe gyda saith o organyddion blaenaf Caerdydd wrth yr allweddell a'r pedalau – yn eu plith John Hughes, Cedric Jones, Sandra Semmens, Brian Evans, Dewi Lewis, Tom Ellis James, ac Alun Guy.

O'r pibau i'r tannau, ac yn cyfrannu at naws yr Ŵyl fydd y telynoresau Caryl Williams a Delyth Medi, ynghyd â rhai o offerynwyr mwyaf dawnus Ysgol Glantâf.

Ar ddangos yn y festri yn ystod yr Ŵyl bydd enghreifftiau o greadigaethau gwaith llaw rhai o aelodau Ebeneser, lle hefyd bydd cyfle i gael hoe a sawru'r amgylchedd wrth flasu cynnyrch cartre yn y bwyty bychan.

Caiff unrhyw arian a gesglir yn ystod yr Ŵyl ei roi i dri achos da, sef Bopath Cymru, Cronfa Offer Mesur Osteoporosis yn Ysbyty'r Brifysgol, a gwaith dyngarol y capel.

# Dalier Sylw yn tynnu sylw at MYM

Yn ystod eu cynhyrchiad dwethaf o *Mysgu Cymyle*, cododd cwmni theatr Dalier Sylw dros £120 tuag at y Mudiad Ysgolion Meithrin.

Perffomiwyd y sioe mewn clybiau a neuaddau cymdeithasol o gwmpas Cymoedd y De, ac fe'i lleolwyd fel noson gymdeithasol a drefnwyd gan y Mudiad Ysgolion Meithrin. Codwyd yr arian drwy werthu tocynnau raffl fel rhan o'r cynhyrchiad.

Cyflwynywd y siec i Bryan Jones, cyfarwyddwr MYM, gan Branwen Cennard, awdur y ddrama

***• Menna'n Manylu am Mysgu Cymyle, tudalen 7***



*• O'r chwith i'r dde: Grug-Maria Davies, Carys Llewelyn, Bryan Jones, Branwen Cennard, Heather Jones a Gillian Elisa*

# Hen ddigon!



Fel arfer, dod i Sain Ffagan fydd hen greiriau ac atgofion am orffennol y genedl, ond ym mis Medi gadael fydd un o hen wynebau yr Amgueddfa Werin. Mae Dr Geraint Jenkins, 62 oed, curadur yr amgueddfa, wedi penderfynu ymddeol ar ôl treulio 31 o flynyddoedd gyda'r Amgueddfa Genedlaethol.

Bu'n guradur yn yr Amgueddfa Werin ers 1987, a chyn hynny goruchwyliodd sefydlu'r Amgueddfa Diwydiant a Môr yn y Dociau lle bu'n guradur hefyd.

Yn ystod ei gyfnod yn Sain Ffagan dilynodd bolisi o bortreadu bywyd cymoedd diwydiannol y De yn ogystal â bywyd gwledig Cymru. Daeth â'r rhes o dai o Ryd-y-car i bortreadu bywyd cartref y Cymoedd, ac yn ystod mis Gorffennaf bydd Siop Gwalia o Gwm Ogwr yn agor i adlewyrchu'r agweddau masnachol.

Datblygodd y ddelwedd o amgueddfa wrth ei gwaith, a phenodwyd pobydd, cyfrwywr a chrochenydd i arddangos a dod â bywyd i'r adeiladau yn Sain Ffagan.

Cysylltwyd enw'r Dr Jenkins yn ddiweddar ag un o'r cwmnïau sy'n cynnig am drwydded deledu Cymru a Gorllewin Lloegr. Bydd ei ymddeoliad nôl i sir Aberteifi yn rhoi digon o gyfle iddo ddilyn ei ddiddordebau yn y maes darlledu, darlithio ac ysgrifennu, a dymunwn flynyddoedd o hapusrwydd yno iddo yntau a'i wraig Nansi.

# Sensws y Dinesydd

Mae'r ymateb i'r arolwg yn rhifyn mis Mai o'r Dinesydd wedi bod yn fendigedig. Diolch i bawb sydd wedi ymateb.

Dyw hi dal ddim yn rhy hwyr i anfon eich holiadur chi nôl atom. Os ydych wedi colli'ch ffurflen galwch y Dinesydd ar 521192 am un arall.

Bydd peth o ganlyniadau'r arolwg wedi eu dadansoddi erbyn mis Gorffennaf, ac mi fydd hi'n dda cael eu cyhoeddi nhw.

Rhoddwyd enwau pawb, anfonodd eu holiaduron yn ôl erbyn 3 Mehefin, yn yr het er mwyn tynnu cystadleuaeth wanwyn y Dinesydd. Yr enw cyntaf allan oedd Elinor Snowball o Dreganna sy'n groesawydd/teipydd i Wasg y Brifysgol. Llongyfarchiadau iddi hi ar ennill potel o siampaen a roddwyd yn garedig gan BAFTA Cymru.

***• Llun a stori yn y rhifyn nesa***

# Gwydion yn swyno'r bloneg i ffwrdd... am y tro ola

Daeth yr ail flwyddyn ar bymtheg o gadw'n heini yng Nglantâf i ben ddiwedd Mai.

Ers y cychwyn bu'r clwb, a sefydlwyd yn wreiddiol ar gyfer dynion 'aeddfed', yn un hynod o lwyddiannus, ac roedd eleni gystal ag erioed.

Dan arweinyddiaeth diwyd Gwydion Lewis, bu'r grŵp yn colli chwŷs wrth y galwyn o wythnos i wythnos.

Tristwch felly i holl aelodau'r dosbarth bod Gwydion, ar ôl cyfnod cyhyd fel athro poblogaidd iawn, wedi penderfynu gollwng yr awenau.

Er hynny bydd y clwb yn dal ati y tymor nesaf, gan ail gychwyn ym mis Medi. I unrhyw un sydd yn dymuno ymaelodi, cysylltwch â Lloyd Evans ar 564794.

# Colofn Shân

Wel, dyma fi'n ôl yn ddiogel ar ôl crwydro ar fy mhen fy hun yn yr Almaen a Denmarc ar daith dan nawdd y Comisiwn Ewropeaidd dros ieithoedd lleiafrifol. Profiad diddorol, buddiol ac yn agoriad llygad ar lawer cyfri.



Ymweld wnes i â lleiafrif Almaenig yn Nenmarc. Yr oedd yn y cwmni dri ar ddeg ohonom, a rhyngom dair iaith ar ddeg. Tair o Ddwyrain yr Almaen, Bautzan yn cynrychioli'r Sorbiaid, dwy o Sbaen yn cynrychioli Galicia, dau Wyddel, gŵr a gwraig o Slovenia, gŵr a gwraig o waelod yr Eidal gynrychiolai leiafrif yno yn hannu o Albania, bachgen ifanc o Friesland a finna o Gymru.

Cyrraedd pen fy nhaith yn ddiogel a chael fy hun mewn gorsaf yn Rederko am hanner awr wedi dau ar brynhawn Sul glawog, dim ond i ddarganfod nad oedd trên arall am deirawr. Ffonio trefnydd y daith a chael ymateb ffafriol y byddai rhywun yn dod i fy nghasglu. Daeth gwraig a'i merch, a'm cyfarch "Shân?". "Yes" medde fi – a'r frawddeg nesaf i mi ei chlywed oedd "Dwi yn iawn yndw? Chwaer Endaf yda chi?"!

Marilyn o Borthmadog a'i merch Shân – hithau wedi ei geni a'i magu yn Nenmarc – yn gwirioni cyfarfod â rhywun o'r un enw, ac wedi'i sillafu yr un fath!

Dyna groeso unigryw i wlad a phrofiadau newydd di-rifedi ar y trothwy. Gwraig Hans Nissen, trefnydd y daith oedd Marilyn. Cael fy nhywys wedyn i Ganolfan Breswyl Ieuenctid Almaenig a setlo i lawr i gartref newydd am yr wythnos.

Rhaid didoli o'r holl brofiadau, prin gyffwrdd â'r holl ddarlithoedd, y trin a'r trafod, yr ymweliadau â gorsaf radio, ysgolion, llyfrgell, Canolfan y Dalaith, Cyngor a Pharlwr Maer y Dre, Canolfan Buddiannau'r Almaenwyr, noson ddifyr o farbiciw gan Glwb Almaenig y dre, swper ar fferm yn y wlad ac yn y blaen. Y cyfan o safbwynt Almaenig.

Am ddeuddydd fy mhroblem oedd sylweddoli ble yn y byd yn union yr oeddwn i. Gan fy mod yn gwbwl anllythrennog ddaearyddol – dipyn o broblem. Cyfeiriai'r Almaenwyr at yr ardal fel Nord Schleswig, a'r Daniaid – De Jutland. Sylweddoli yn fuan iawn bod eu hamgylchiadau hwy yn gwbl wahanol i ni. Nid lleiafrif ieithyddol mohonynt, fel gweddill y criw. Mynnent nad oeddynt yn Almaenwyr nac yn Ddaniaid ond yn "German feeling people", yn gwarchod tiriogaeth yn hanesyddol y teimlent â hawl arno.

Ar ôl y Rhyfel Byd cyntaf, yn 1920, bu refferendwm i benderfynu i ba wlad y perthynai'r rhan hon. Denmarc a orfu, draenen yn ystlys y lleiafrif o dras Almaenig hyd heddiw.

Ond, lleiafrif llewyrchus tu hwnt, yn derbyn nawdd hael o lywodraeth Denmarc ac o Bonn, a'i siâr o nawdd fel trethdalwyr. Ysgolion, i blant hyd at 14 oed â'u rhieni'n gweithio, yn rhoi tê iddynt ac yn rhoi help llaw â gwaith cartref, ac yn cynnal pob math o weithgarwch.

Pob ysgol yn garped o wal i wal, pob cyfleuster moethus a modern – cyfrifiaduron, offerynnau cerdd, a phobman yn lân lân lân. Ni welais graffiti o unrhyw fath yn unman.

Profiadau lu, ond nid oes ofod yma i fanylu. Dim ond crybwyll un peth. 15,000 yw'r boblogaeth leiafrifol, ac y mae ganddynt bapur dyddiol Almaenig, yn argraffu pediar mil o gopïau, a chylchrediad oddeutu 14,000 – union honiad *Y Dinesydd* yn fisol. Ond ganddynt hwy, nid criw o wirfoddolwyr. Na, pencadlys â staff o 19 a chyfarpar soffistigedig cyfoes. Tair swyddfa fach lleol yn y berfeddwlad a thri gohebydd llawn amser yn yr ardaloedd hynny. Be ddywedai John Roberts Williams? Ninnau yng Nghymru yn brwydro am einioes papur bro, a'r freuddwyd o gael papur dyddiol Cymraeg yn ddim ond breuddwyd gwrach?

## PaulPiniwn

Ar ôl darllen am broblema'r Dinesydd yn y rhifyn dwytha, dyma fi'n deud wrtha i fy hun "be sy'n newydd?". Ond meddwl hefyd faswn i'n rhoi pin wrth bapur a deud fy neud am eu bod nhw'n gofyn am erthygla wrth bobl fatha chi a fi. Felly dyma wneud.

Welis i'r demo tu allan i'r Swyddfa Gymreig ar y newyddion nos Sadwrn ar S4C, a dyma fi'n meddwl wrthaf i fy hun, yli Paul, ti'n anfon dy blant di i'r ysgol feithrin Gymraeg lawr y ffor, ond i be? Does dim un o'r plant erill yno'n medru gair o Gymraeg ac mae dy blant ditha'n mynd 'no i ddysgu llond pen o Susnag Caerdydd a chaneuon ar lin mam Cymraeg. Be di'r pwynt o gael ysgol feithrin Gymraeg os di'r plant Cymraeg sy'n mynd 'no'n cael eu boddi mewn Susnag? Dwim yn galw hynny'n lot o addysg Gymraeg. Ddyla bod cylchoedd ar wahân i blant sy'n dod o gartrefi Susnag on sy isho addysg Gymraeg fel nad 'dy eu harferion nhw'n rhwbio ffwr ar blant fatham mhlant i.

Peth arall drawodd fi'n ddiweddar oedd bod sawl un o'r grwpia 'ma sy isho cael ffransheis deledu Cymru a'r West isho gneud rhaglenni fydda'n dod â Chymru a'r West ati gilydd. Dwi'n sicr ddim yn gwybod be sy'n digwydd ochr arall i bont Hafren, a dwi'n byw'n Gaerdydd. Tydio'm yn berthnasol i mi. Ac os tydio'm yn berthnasol i mi, tydio'm sicr yn mynd i fod yn berthnasol i mam nôl adra.

Dwi'n cofio nonsans flynydda 'nôl pan oedd Harlach arfar deud mai prin oedd y bobl yn Ne Cymru a'r West oedd heb deulu naill ochr a'r llall i fôr Hafren. Ddaethon nhw i'w sensus – ar ôl amsar. Pwy ochr yma i'r dŵr sydd ag affliw o ddiddordab mewn Friends and Enemies sy'n byw yn Chepstow?

Toedd hi'n ddifyr clwad bod Steddfod yr Urdd wedi gneud rêl smonach o osod arwyddion anferth o gwmpas Tâf Elai yn hysbysebu'r Steddfod, a'r cyngor yn eu rhwygo nhw lawr am nad oedd gynnon nhw blanning permission! Ddeudodd rhywun wrthyn nhw toedd gynnon nhw blanning permission am y pafiliwn 'na chwaith?!


**YR ACADEMI GYMREIG**
**CANOLFAN UWCHEFRYDIAU CYMREIG A CHELTAIDD**

14 Mehefin 1991

**DARLLENIADAU O WAITH Y GOGYNFEIRDD**

Amgueddfa Genedlaethol Cymru

Cyfle i weld Arddangosfa'r Celtiaid - 6.15pm
Perfformiad yn dechrau - 7.15pm

Am fanylion cysyllter â: Dafydd Rogers, Yr Academi Gymreig.

☎ 0222/492064

*Gyda chymorth Cyngor y Celfyddydau*

# Dymuniadau gorau 18fed penblwydd i'r Dinesydd!

***Mae papur bro hynaf Cymru eleni yn dathu ei benblwydd yn ddeunaw oed. Ie, nôl ym 1973 gwelodd Y Dinesydd olau dydd am y to cyntaf erioed. A chyfnod anturus fu'r deunaw mlynedd dwetha, gan arloesi, codi gwrychyn, darogan tranc, wynebu problemau ariannol, ond bob tro'n llwyddo i atgyfodi.***

***Ond pwrpas pennaf Y Dinesydd erioed fu meithrin cymdeithas a chadw cysylltiad ymhlith y 14,000 a mwy o Gymry Cymraeg Caerdydd, yn ffynhonnell newyddion a gwybodaeth unigryw yn y brifddinas.***

***Dros y misoedd nesa bydd Y Dinesydd 1991 yn edrych yn ôl ar rai o uchafbwyntiau y deunaw mlynedd aeth heibio drwy lygaid rhai o'r golygyddion amlwg (a llai amlwg) fu'n magu'r papur o rifyn i rifyn.***

***Golygydd cyntaf Y Dinesydd oedd Norman Williams, sy'n dwyn i gof ei atgofion cynnar.***



• Norman Williams

Pan glywais fod *Y Dinesydd* eleni yn ddeunaw oed, fe'm trawyd gan deimlad annifyr fy mod i'n dechra mynd yn hŷn.

Dros y blynyddoedd bûm yn gysylltiedig â chychwyn sawl peth, ond o edrych yn ôl roedd bod â rhan yng ngenedigaeth *Y Dinesydd* yn un o'r uchafbwyntiau.

Pobol yn hytrach na digwyddiadau sy'n aros yn y cof. Braint fawr oedd cael cydweithio gyda'r Dr Meredydd Evans, prif symbylydd *Y Dinesydd*. Meddai ar y ddawn i'ch perswadio i gyfrannu'ch trowsus tuag at achos da petai angen.

Mae'r un ddawn yn perthyn i David Meredith – ein swyddog hysbysebion. Yn un o rifynnau cynhara'r papur llwyddodd i ddenu Cwmni Chwalu Adeiladau i brynu tudalen gyfan o hysbyseb. Ar ba sail – dyn a ŵyr!

Cofiaf ddod adre ryw noson yn hwyr iawn iawn, a phwy eisteddai yn ei gar y tu allan ond David Meredith. "Ers faint wyt ti wedi bod yma?" gofynnais. "Ers rhyw gwta bythefnos" oedd yr ateb. Mae'r *Faner* mewn dwylo da.

Gair o gyngor i gloi i unrhyw Olygydd sy'n poeni am ddiffyg ymateb ac yn meddwl nad oes neb yn darllen y papur. Rhowch gamgymeriad bwriadol yn y Croesair – fe weithiodd i mi.


Ydi, mae cychwyn *Y Dinesydd* yn teimlo "fel rhyw gwta bythefnos" yn ôl a does ond diolch nad ydi'r Cwmni Chwalu Adeiladau yn medru dileu ein hatgofion ni hefyd.

***• Mae copïau o'r rhifyn cyntaf erioed o'r Dinesydd yn brin iawn – mewn gwirionedd methwyd â dod o hyd i un wrth baratoi'r gyfres hon. Oes gan unrhyw un syniad lle cawn ni ddod o hyd i un?***










*Neuadd Dewi Sant*
*Caerdydd, Cymru*

*5 - 13 Gorffennaf 1991*

*Cyfarwyddwr Artistig:*
*Marisa Robles*

*-Cyngherddau mawreddog*
*Datganiadau ar y delyn*
*Dosbarthiadau gyda'r Meistri*

*Cystadlaethau Telyn*
*Hŷn a Iau*

*Arddangosfeydd*
*Ffair Fasnach*
*Dangosiadau*

*Manylion llawn oddi wrth*
*Neuadd Dewi Sant,*
*Caerdydd CF1 2SH*
*Ffôn: 0222 342611 x 232*

DINAS CAERDYDD · CITY OF CARDIFF

*Mewn cyd-gysylltiad â*

HTV CYMRU WALES





**Gyda'r Dinesydd yn dod i'w oed yn ddeunaw eleni, a gawn ni apelio'n daer arnoch i ddathlu'r achlysur hwn mewn modd ymarferol – trwy gyfrannu'n ariannol at ein coffrau.**

**Mae pob un copi o'r Dinesydd yn costio tua 60c i'w gyhoeddi, a byddwn yn gwario rhwng £1,500 a £2,000 bob rhifyn i gynhyrchu'n papur bro.**

**Daw rhai cannoedd o bunnau i dalu'r costau hynny drwy grantiau a thrwy danysgrifiadau. Ar ddiwedd y dydd os yw darllenwyr y Dinesydd yn barod i gynorthwyo i hybu sail ariannol i'r papur, bydd y papur yn llwyddo.**

**Gallwch danysgrifio drwy lenwi'r bonyn isod, a'i ddychwelyd at Drysorydd Y Dinesydd, 17 West Orchard Crescent, Llandaf, Caerdydd CF5 1AR. Yn yr un modd, anfonwch unrhyw gyfraniadau, neu siec am £4 er mwyn postio'r 10 rhifyn nesaf o'r Dinesydd atoch, at y Trysorydd. Dylai sieciau fod yn daladwy i'r Dinesydd.**

## Archeb Banc

Banc. . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

Cyfeiriad. . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

Rhif eich cyfrif. . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

A wnewch chi dalu Cyfrif y Dinesydd (Rhif 46123023), Banc Cymru, Kingsway, Caerdydd (Rhif 12-23-00) y swm canlynol sef. . . . . . . . . . . . . . . . . . i'w dalu yn gyntaf ar. . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . (dyddiad) ac yn flynyddol wedi hynny hyd nes y dileir yr archeb banc yma.

Arwyddwyd. . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

Cyfeiriad. . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

# Y frwydr dros addysg Gymraeg

## Cathryn Gwynn

Erbyn i'r Dinesydd hwn ymddangos mi fydd sefyllfa addysg gynradd Gymraeg yng Nghaerdydd wedi derbyn tipyn o sylw'r wasg, a bydd yna wybodaeth sicrach am fwriadau'r Awdurdod ynglŷn â sefyllfa ysgol i'r Rhâth.

Ar hyn o bryd mae'n edrych yn debyg i rieni'r ardal yma lle bu galw mor daer am ysgol, y bydd yr Awdurdod yn cynnig ysgol ar gyfer plant dwyrain Caerdydd wedi'r cwbwl. Dyw'r safle ddim yn ddelfrydol o bell ffordd – dyw'r safle yn Gabalfa ddim hyd yn oed o fewn y gymuned sydd ei hangen.

Yn wyneb absenoldeb unrhyw ddewis arall, bydd yn rhaid i'r rhieni wynebu penderfyniad anodd. Gwrthod y cynnig, a cholli'r cyfle i weld plant yr ardal yn ffurfio dosbarth cychwynnol ym Mro Eirwg ym mis Medi, neu dderbyn er mwyn sefydlu ysgol ar gyfer y nifer helaeth o blant sy'n byw o fewn tafliad carreg i'w gilydd (er bod yr ysgol ym mhell i ffwrdd), ac er mwyn llacio'r pwyse ar y niferoedd led led y ddinas yn y dyfodol.

Rhyw ystyriaethau felly sydd wedi bod ym meddyliau nifer o bobol dros y tri mis diwethaf yma. Ond ni ddylai penderfyniadau anodd fel hyn fod yn rhan o dwf addysg Gymraeg yn y ddinas. Ni ddylai rhieni orfod ymgyrchu mor egnïol dros hawl sylfaenol yn enwedig o gofio mai stori lwyddiannus fu stori addysg Gymraeg yng Nghaerdydd ar hyd y blynyddoedd.

Ar ba sail mae'r Awdurdod mor amharod i gydnabod y bydd y twf yn parhau? Mae angen rali fory i alw am weledigaeth a chynllunio nawr i osgoi blynyddoedd o chwilio a chwalu am gorneli bach cyfleus i stwffio ysgol Gymraeg, lle na fydd hi'n niwsans i neb.

Rwy wedi dysgu llawer yn ystod yr ymgyrch ynglŷn â sut mae penderfyniadau ynglŷn ag addysg Gymraeg yn cael eu gwneud – a chael fy synnu. Rwy'n credu bod lle i ni ofyn faint o aelodau'r Gweithgor Addysg Gymraeg sy'n trafferthu mynychu'r cyfarfodydd, a faint ohonyn nhw sy'n gyfarwydd â'r cefndir?


A yw hi'n deg fod mwyafrif aelodau'r gweithgor yn byw yn y Barri, Penarth a'r Fro? A beth am gynrychiolaeth UCAC, MYM a RHAG o leia ar y gweithgor?

Sut mae'r awdurdod addysg yn mynd ati i amcangyfrif y galw am addysg Gymraeg yng Nghaerdydd – oes ganddyn nhw ffigurau o gwbwl? Ydyn nhw'n gwybod fod rhestrau enwe ar gyfer 1993 eisoes wedi eu hagor mewn rhai cylchoedd meithrin?

Llu o gwestiynau, 'run ohonyn nhw yn newydd, rwy'n gwybod. Ond rhoddodd y rali, arwydd i'r awdurdod fod rhieni Caerdydd yn poeni digon i sefyll gyda'i gilydd i leisio protest. A hwnna falle yw'r cam pwysica tuag at y nod.

# Canwr y Byd Caerdydd

Cystadleuaeth 1991



• Dmitri Hvorostovsky o'r Undeb Sofietaidd, Canwr y Byd Caerdydd 1989

Daeth yn adeg i gantorion o bedwar ban byd ymgynnull yng Nghaerdydd ar gyfer pedwerydd cystadleuaeth Canwr y Byd Caerdydd.

Yn ôl Huw Tregelles Williams, pennaeth cerdd BBC Cymru, sy'n trefnu'r achlysur, dylai'r safon eleni fod yn uwch nag erioed.

Ymhlith y gwledydd sy'n cystadlu am y tro cyntaf mae Tsiecoslofacia a Romania, ac unwaith eto bydd lleisiau o'r Undeb Sofietaidd – a enillodd ddwy flynedd yn ôl – Ffrainc, y Swistir, Cymru, Iwerddon, Lloegr, yr Alban a Chanada i'w clywed.

Cynrychiolydd Cymru eleni yw'r bâs-bariton Neal Davies, 25 oed o Gasnewydd, sydd eisoes wedi canu gyda'r Opera Cenedlaethol ac sy'n gweithio ar hyn o bryd yn Zürich.

Yn cyfeilio i'r cantorion fydd Cerddorfa Symffoni Gymreig y BBC a Cherddorfa Opera Cenedlaethol Cymru, ac yn cloriannu'r cyfan tîm o feirniaid enwog, gan gynnwys Shen Xiang o Gonserfatori Beijing a Cezzare Mazzonis, Cyfarwyddwr Artistig La Scala ym Milan.

Bydd Canwr y Byd Caerdydd yn derbyn gwobr o £5,000 ynghyd â thair cyngerdd gyda'r BBC, gyda gwobr arbennig y Lieder i'r canwr fydd yn dangos y sgiliau Lieder gorau yn ystod yr wythnos.

Teledir yr holl gystadleuaeth gan BBC Cymru rhwng Mehefin 16 a 22. I chi fydd yno yn Neuadd Dewi Sant yn y cnawd, rych chi'n lwcus – mae'r tocynnau i gyd wedi eu gwerthu ers misoedd!

# Deffro! Mae'n Ddydd!

## Gwilym Roberts

Cês i fy magu yng Nghaerdydd pan nad oedd addysg Gymraeg yn y ddinas a gorfu i'm brawd a minnau dderbyn addysg Saesneg er taw Cymraeg oedd iaith yr aelwyd.

Pan ddychwelais o'r Coleg i ddysgu yng Nghaerdydd ym 1958 roedd un ysgol gynradd Gymraeg ar agor sef Bryntaf, ac un cylch meithrin Cymraeg yn cyfarfod yn festri capel y Crwys.

Erbyn i blant fy mrawd ddechrau yn yr ysgol roedd yn bosib iddyn nhw dderbyn eu haddysg yn Gymraeg o'r oed meithrin i oed gadael yr ysgol uwchradd (Rhydfelen ar y pryd).

A heddiw yn y ddinas mae chwe ysgol gynradd Gymraeg, pump ar hugain o gylchoedd meithrin, dau ar bymtheg o gylchoedd Ti a Fi, ac ysgol gyfun Gymraeg sy'n gwasanaethau'r sir gyfan – a hynny heb sôn am y twf yn y Fro.

Llwyddiant ysgubol Mudiad Ysgolion Meithrin sy'n gyfrifol am y twf anhygoel hyn, a da ydy cydnabod gwaith yr arloeswyr a weithiodd mor ddygn a thrylwyr i sicrhau dyfodol llewyrchus i'r iaith yn y gornel hon o Gymru.

Ond mae llwyddiant wastad yn dwyn problemau yn ei sgîl, a dyna sy wedi digwydd yn ystod y misoedd dwetha yng Nghaerdydd gan nad yw chwe ysgol gynradd Gymraeg yn gallu ymdopi â'r gofyn am leoedd ym mis Medi.

Ateb Awdurdod Addysg De Morgannwg i'r broblem ydy ceisio gwasgaru'r plant newydd rhwng y chwe ysgol bresennol drwy orfodi degau o rieni i orfod wynebu anfon eu plant i ysgolion sy filltiroedd i ffwrdd oddi wrth eu cartrefi, er bod ysgol Gymraeg yn aml ar garreg eu drws.

Yr ateb yn y tymor hir ydy sefydlu ysgolion cymunedol Cymraeg drwy'r ddinas i sicrhau chwarae teg a thwf parhaol. Yr ateb yn y tymor byr, sef mis Medi, ydy sefydlu cnewyllyn y seithfed ysgol gynradd Gymraeg yn ardal y Rhâth.

Trist ydy meddwl bod angen ymgyrchu eto i gael chwarae teg i blant sy'n dymuno addysg Gymraeg yn ein prifddinas. Dylai'r awdurdodau ymfalchio yn eu hysgolion Cymraeg, a cheisio'u gorau glas i symud pob rhwystr er mwyn sicrhau mwy o lwyddiant. Mae'n bwysig fod Caerdydd yn arwain ac nid yn llusgo traed o safbwynt addysg Gymraeg os ydy hi am gael ei hystyried yn wir brifddinas.

Deffro, mae'n ddydd, Gaerdydd!

**y Dinesydd**

Cyfrwng i chi gael lleisio'ch barn, i gyflwyno'ch safbwynt ac i drosglwyddo gwybodaeth i Gymry Cymraeg Caerdydd, dyna yw'r Dinesydd yn ei hanfod.

Ydych chi erioed wedi meddwl y gallech chi gyfrannu erthyglau difyr i'r Dinesydd? Wel, dyma'ch cyfle.

Bydd rhifyn nesaf cylchgrawn Cymraeg pobol Caerdydd yn ymddangos ddechrau mis Gorffennaf, a rydym yn disgwyl yn eiddgar at gael cyhoeddi eich erthyglau, lluniau a'ch llythyrau chi.

Y dyddiad olaf ar gyfer derbyn copi i'r rhifyn nesaf yw **21 Mehefin**. Anfonwch at y Golygydd, 5 Yr Hen Dŷ, Heol Fair, Llandaf, Caerdydd CF5 2EE, neu anfonwch fax at Surexit Cysylltiadau Torfol: 521553.

# Menna'n Manylu

## *Menna Medi'n cnoi cil ar ambell i ddantaith dramatig*

Dro'n ôl bu'n gyfnod prysur iawn i mi yn ymweld â theatrau yma yng Nghaerdydd ac yn Llundain gan fynychu croesdoriad eang o ddramâu Cymraeg a Saesneg.

Y gyntaf oedd *Mysgu Cymyle* gan gwmni Dalier Sylw a berfformiwyd yng Nghlwb Ifor Bach. Branwen Cennard oedd yr awdur a cheisiodd adlewyrchu rhigol bywyd cynifer o ferched a mamau ifanc cymoedd y De, er y gallai'r sefyllfa ddigwydd yn unrhyw dre ddi-freintiedig arall.

Pe na bai fy chwaer a'm ffrind efo fi (sy'n athrawon yn y Rhondda) niwlog iawn fyddai cynifer i gyfeiriadau at enwau llefydd lleol y Cymoedd, ac felly tueddai i gyfyngu mwynhad y gwrandawyr.

Roedd yn newid cael y chwarae'n digwydd ymysg y gynulleidfa yn ogystal ag ar y llwyfan, ond gwan iawn fy marn i fyddai'r sgript heb ganu Heather Jones – a dwi'm yn sicr beth oedd cwlwm hynny efo'r stori chwaith. Er hynny roedd yr actio'n gredadwy, ond gorffen yn swta wnaeth y cyflwyniad a neb yn gor-ganmol ar y diwedd. Er hynny, roedd yn *change*.

Yr ail berfformiad weles i yn y clwb (na, dwi **ddim** yn crafu) oedd *Deial 999*. Roedd y lle'n orlawn – prawf o boblogrwydd cwmni Theatr Bara Caws, ac o ysgrifennu crafog a bachog (a gor-blaen weithie) Twm Miall. Roedd y chwarae'n slic a chyflym a hoffais y ddau gi'n fwy na neb! Doedd darnau Janet Aethwy ddim yn gweu i'r stori rywsut – fel petaent wedi eu taflu i'r sgript i greu cymeriad arall. Olrhain plismon pentref yn Nhal y Sang wnaeth yr awdur gan ganolbwyntio'n gyson ar alwadau ffôn *Ciosg Tal y Sang* chwedl Dafydd Iwan.

Os oedd iaith Mysgu Cymyle'n ddeheuol i'r gwrthwyneb oedd Deial 999 – roeddwn i'n gorfod egluro i fy ffrind o Lanybydder beth oedd ystyr y jôcs. O fod wedi gweld nifer o gyflwyniadau Bara Caws yn y gorffennol wnes i ddim mwynhau hon gystal, a dim rowlio chwerthin fel yr hen ddyddie – roedd y sefyllfa'n hen, y jôcs yn hŷn, a bywyd Meibion Glyndŵr mor hen â'r hen Fethusala efo rhwd a gwe pry cop arnynt. Er hynny roedd cael pwl bach o chwerthin yma ac acw'n rhyddhad i enaid dyn.

Y trydydd cyflwyniad oedd *Y Gelli Geirios* gan gwmni enwocaf Cymru dicini – Theatr Gwynedd. Tri chwarter llawn oedd y Sherman ond cafwyd ymateb da. Chredwn i ddim y byddwn i'n mwynhau Chekhov, ond mi wnes, er nad yn deall y ffeddylfryd gymhleth bob tro.

Roedd y set symudol yn drawiadol a'r dillad yn osgeiddig neu'n dlodaidd fel oedd yr angen, ac roedd presenoldeb Maureen Rhys, perchennog y winllan, yn amlwg ac yn cydio o'r dechre i'r diwedd. Roedd yma dristwch a dychan a chymeriad direidus Trefor Selway'n denu gwên yn aml iawn.

Wrth dreulio penwythnos yn Llundain cawsom gyfle i weld *Les Misérables* o'r diwedd, gan dalu £5 yn unig. Mwynheais bob munud o'r ddrama gerdd ac roedd y set gylchdro, dillad y cyfnod a'r caneuon corawl yn afaelgar iawn. Braf hefyd oedd gweld un o actorion Cymru'n chware un o'r prif ranne – Stifyn Parri.

Cwmni Brenhinol Shakespeare oedd yn perfformio ac roedd y stori'n seiliedig ar nofel gan Victor Hugo. Roedd o'n ffigwr llenyddol parchus yn ei gyfnod (1802-55) ond eto roedd yn brwydro'n gyson yn erbyn y Wladwriaeth Ffrengig.

Sail y stori yw'r werin bobol yn gwrthryfela yn erbyn byddigions y wlad, a llynges y llywodraeth, y fyddin a'r heddlu yn ceisio cadw trefn ar y sefyllfa.

Roedd y tair awr yn llawn bwrlwm a brwdfrydedd. Yr unig feirniadaeth bersonol am y canu oedd nad oedd digon o ganu gan y corws – tudeddai'r unigolion i fod yn wan ar adegau, a'u lleisiau'n rhy ifanc neu anaeddfed i gynnal darnau egnïol o'r fath.

Y cyflwyniad ola i fi ei weld oed *42nd Street*. Gan i ni weld Les Misérables gynta, braidd yn ddi-hwb a llai ysblennydd oedd 42nd Street – llai o ganu a mwy o acenion 'llydan' Broadway. Er hynny roedd yma ddigon o sbloets theatrig.

Hanes merch gafwyd, a dawn arbennig ganddi mewn dawnsio tap (fel gweddill y cast). Er ei bod yn ferch swil iawn adnabu cynhyrchydd drama hi a chafodd brif ran mewn sioe boblogaidd. Diwedd y gân oedd disgyn mewn cariad â fo ac aelod arall o'r cast.

Roedd y dawnsio tap yn arbennig a'r set ar adegau'n drydanol, yn llawn goleuadau lliwgar fel pe baech yn sefyll ar stryd yn Efrog Newydd o dan yr adeilade enfawr. Ond eto roedd rhyw wacter yn perthyn i'r holl gyfanwaith a'i gymharu â'r llall.

Bellach mae cyfnod y dramâu wedi distewi ond mae ein cwmni bach ni wedi ail-ddechre. Byddwn yn cynnal noson o adloniant efo Gwenno Dafydd a Heulwen Evans, ac mi fyddwn ni'n cyflwyno sgets ar Blind Dêt Cymraeg yn ogystal â darn gan Gareth Traws a sgwrs gan Sian Tesni am ei thaith i Papua New Guinea i weithio'n wirfoddol efo'r byddar.

***Cynhelir y noson honno yng Nghlwb Ifor Bach ar nos Wener, Mehefin 21, gyda disgo i ddilyn a bydd elw'r noson yn mynd i helpu Sian ar ei thaith. Cofiwch amdanon ni!***

# Golwg newydd ar y theatr Gymraeg

Datblygu'r theatr Gymraeg yw un o brif flaenoriaethau Cyngor y Celfyddydau ar hyn o bryd. I'r perwyl hwnnw maent wrthi'n adolygu eu polisïau ar gefnogi'r theatr Gymraeg er mwyn llunio strategaeth ar gyfer y tair blynedd nesaf.

Y bwriad yw llunio dogfen awdurdodol a fydd ar gael i'r cyhoedd yn ystod yr hydref eleni, a'r gobaith yw y bydd yr arolwg yn gosod sylfaen ar gyfer syniadaeth glir at y dyfodol i bawb sy'n ymwneud â'r maes, ac hefyd i roi dadleuon i gynyddu adnoddau pan a ble bo angen.

Mae'r Cyngor yn gwahodd sylwadau am gyflwr presennol y theatr Gymraeg ac am anghenion cynulleidfaoedd at y dyfodol, a barn am sut ellid datblygu elfennau gorau'r gwaith presennol.


***Am fanylion pellach cysylltwch â Chyngor y Celfyddydau, ffôn 394711.***

Mae Cyngor y Celfyddydau'n adolygu ei bolisïau ar gefnogi'r theatr Gymraeg.
Byddai Pwyllgor Drama a Phanel Theatr Gymraeg y Cyngor yn croesawu:

Sylwadau oddi wrth unigolion sydd â diddordeb, oddi wrth y proffesiynau ac oddi wrth y cyhoedd a chyrff eraill ar
**Y Theatr Gymraeg 1992-1995**

Gellir cael dogfen ysgogi gychwynnol oddi wrth:
**Michael Baker**
**Cyfarwyddwr Drama**
**Cyngor y Celfyddydau**
**Stryd yr Amgueddfa**
**Caerdydd CF1 3NX**

BYDDWCH CYSTAL Â CHYFLWYNO'CH SYLWADAU ERBYN 31 GORFFENNAF 1991





sain

**Casetiau**
**Recordiau**
**CD a Fideo**
***– mae'r goreuon ar Sain!***

- **Sobin a'r Smaeliaid**
- **Côr Meibion Llanelli**
- **Bryn Terfel • Dafydd Iwan**
- **Elinor Bennett • Plethyn**

**...a llawer mwy!**

***Fideos:***
C'mon Midffild 2 (gydag is-deitlau)
Cefn Gwlad (Dai Jones)
Crys Pêl Droed Bryncoch United
Alarm • U Thant • Anhrefn

Sain • Llandwrog • Caernarfon
(0286) 831 111 Ffacs (0286) 831 497



## – Tŷ Ffilm –

Ydych chi'n chwilio am swyddfeydd newydd neu yn dechrau busnes newydd?

Os felly gallwn gynnig swyddfeydd braf am bris rhesymol yn Sgwâr Mount Stuart, Bae Caerdydd.

A mwy na hynny, yn gynwysiedig yn y pris darperir gwasanaeth ffôn a derbynfa yn yr iaith Gymraeg.

**Rhowch alwad ar Gaerdydd 480911**


# HelMeddyliau

**Huw Ethall**

***O ddyddiadur mis Ebrill Arweinydd yr Wrthblaid yn San Steffan:***

***Ebrill 17***

Glenys a minnau yn cael croeso cynnes gan y Cwîn yng Nghastell Windsor. Un o'i chwestiynau cyntaf oedd "Sut mae Tonipandi?"

"Dyw Tonypandy ddim yn etholaeth Islwyn, Eich Mawrhydi" meddwn innau. "Yn y Rhondda mae Tonypandy..."

"Na, na" meddai hithau, "George oeddwn i'n feddwl – Lord Tonipandi".

"O – dwy byth yn ei weld e nawr. Fe fu'n dod yn gyson i Gynhadledd y Blaid Lafur flynyddoedd yn ôl ond dim nawr. Pwysicach pethe i'w gwneud sbo. Falle ei bod hi'n ddoethach 'ed oherwydd fe fydde sôn am Fanc Cymru a phethe felly ddim yn mynd lawr yn rhy dda gyda'r *left wing* yn y Gynhadledd".

"O piti" meddai Ei Mawrhydi, "oherwydd mae Philip a fi – sori, fi a Philip – yn meddwl y byd o George. A mae Charles a Di yn ffond iawn ohono fe. Yn ffond iawn, iawn. Ac yntau'n ffond iawn, iawn ohonyn nhw. Piti iddo ddewis enw fel Lord Tonipandi – rwy'n cael anhawster dweud yr enw. Fe fyddai Lord Suffolk neu Lord Windermere neu Lord Warwick yn siwto George yn well."

Yna trodd Ei Mawrhydi at Glenys. "A sut mae Anglesey?" gofynnodd.

"O – ddim fel yr oedd dan yr Arglwydd Cledwyn" meddai hithau. "Roedd yr ynys yn llawer mwy sosialist o dan Lord Cledwyn. Welsh Nash sy'n cynrychioli'r ynys nawr, Ieuan Wyn Jones".

"Ie——?....Beth ddwedsoch chi yw'r enw?" gofynnodd Ei Mawrhydi.

"Ieuan" meddai Glenys.

Meddai hithau "Mae Charles yn dweud wrtho i yn aml am yr enwau Cymraeg 'ma. 'Dyna i chi Dafydd Wigley a Dafydd Elis Thomas, Mami', mae Charles yn dweud, 'mae dwy **d** yn Dafydd – fel yn Llan**dd**eusant a Llan**dd**einiolen a Caerdy**dd**'. Mae Charles fel y gwyddoch chi yn dda iawn gyda'r Gymraeg. Ond dyna fe, mae e'n derbyn *Y Faner*, *Golwg* a'r *Cymro* yn gyson bob wythnos".

Rhaid oedd cyfaddef nad oeddwn i byth yn eu gweld nhw. Ond dyma fi'n dweud wrthi'n syth: "Ond dyna fe, Eich Mawrhydi, nid enwau sy'n bwysig ond pobol. A'r un un yw pobol ym mhob man – mae pobol Durham a South Shields yr un fath â pobol y Rhondda a Mynydd Islwyn a Sir Fôn. Grêt Briten ym ni, onide, Eich Mawrhydi?" meddwn innau'n wlatgarol (tybed a gofiodd fy ngeiriau yn y Gynhadledd honno pan ddywedais fy mod innau'n barod i farw 'dros fy ngwlad'?).

Aeth yr amser yn gynt nag arfer gyda'r Cwîn, a diolchodd Glenys a minnau iddi am yr 'anrhydedd fawr' o gael dod i Gastell Windsor, ond yn fwy na dim am i ni gael siarad am Gymru.

Yn y tacsi ar y ffordd adre, fe ganodd Glen a fi God Sêf Ddy Cwîn gyda mwy o'r hwyl Gymreig nag arfer.

"Noson gofiadwy" meddai Glen.

"Cofiadwy?" meddwn innau, "Nage cofiadwy, ond bythgofiadwy!".

***Ebrill 18***

Y Cwîn yn fy ffonio i ddweud fod Lech Walesa wedi treulio'r dydd yn Mhalas Buckingham ar ymweliad swyddogol. "Dysgodd eiriau Y Faner Goch i mi!" meddai Ei Mawrhydi. "Cawn fynd drosti pan fydd Glen a chi yma eto".

Bydd gwybod y geiriau yn help mawr pan fydd Lech yn ei gwahodd hithau i wlad Pŵyl a chyfarfod ffrindiau Lech, yn enwedig yn Gdansk.

***Ebrill 19***

Cledwyn yn fy ffonio i ddweud fod Dr George Carey, archesgob newydd Caergaint, wedi cymryd llw o deyrngarch i'r Cwîn yn 'y lle arall'. Mae'n amlwg nad yw hi Ei Mawrhydi (neu'r Sefydliad) yn credu fod gair dyn yn unig yn ddigon erbyn hyn, gair Archesgob hyd yn oed. Piti.

# AnnwylDdinesydd

## Y Cyfrifiad yn cythruddo

Roeddem newydd ddod adre o'n gwyliau pan gurodd dyn y cyfrifiad ar ddrws ein tŷ ni. Yng nghanol y cesus doedd gen i ddim llawer o amser i roi sylw iddo, ac fe gymrais ffurflen wrtho heb gymryd llawer o sylw.

Yn nes ymlaen yn unig – gyda'r dillad brwnt yn y golch a dishgled o de yn fy llaw – wnês i edrych ar y ffurflen yn iawn a chael fy siomi mai un uniaith Saesneg oedd hi.

Digwyddais weld y dyn drannoeth, felly gofynnais iddo am fersiwn Gymraeg o'r ffurflen. Atebodd nad oedd ganddo un, er bod ganddo ddigonedd ohonynt y noson gynt pan alwodd heibio. Beth bynnag, meddai, mae'n ddigon hawdd cael un Gymraeg drwy ffonio'r rhif ar ben y ffurflen Saesneg.

Rhoddais gynnig ar ffonio'r rhif hwnnw ryw dair neu bedair o weithiau a chael peiriant ateb yn gofyn i mi alw eto yn ddiweddarach. Yna penderfynais gysylltu â swyddfa'r cyfrifiad yn y dre. Person uniaith Saesneg atebodd y ffôn, a rhoddodd yntau rif ffôn arall i mi. Y tro hwn, siaradwr Cymraeg atebodd.

Cydymdeimlodd yntau â mi, a dwedodd y dylai'r dyn a alwodd heibio fod wedi cynnig ffurflen Gymraeg i mi. Er hynny, addawodd alw heibio y noson honno, a dod â ffurflen Gymraeg i mi. Ac fe gadwodd at ei air.

Pan ddaeth y dosbarthwr ffurflenni nôl i gasglu o'n tŷ ni, dyma fi'n ei fachu wrth y drws a gofyn iddo pam nad oedd wedi cynnig ffurflen Gymraeg i mi.

Ei ateb e oedd taw fi oedd fod i ofyn iddo fe – er i'r cyfaill alwodd heibio â'r ffurflen Gymraeg addef yn wahanol. Er i ni ddadlau'r pwynt, mynnai taw fe oedd yn iawn.

Pwy felly oedd ar fai? Yr argraff gefais i oedd y byddai'r dosbarthwyr ffurflenni yn rhoi dewis yr iaith i chi. Oedd y wybodaeth yna'n gelwyddog, neu a roddwyd y wybodaeth anghywir i'n dosbarthwr ni – neu a oedd e'n dewis peidio â dilyn y cyfarwyddiadau a gafodd?

Dim ond unwaith bob degawd mae'r cyfrifiad yn cael ei gynnal. Siawns allai hwnna fod heb ei brobleme ieithyddol!

### *Cafwyd enw a chyfeiriad*

***• Os oes gennych chi gwyn am y cyfrifiad, dylech gysylltu â John Walter Jones, Bwrdd yr Iaith, Cwrt y Groes Hir, 47 Heol Casnewydd, Caerdydd CF2 1AD (gan nodi Cyfrifiad ar yr amlen), neu ei ffonio ar 488745.***

***Os ydych chi'n hoff o sgrifennu, anfonwch air hefyd at y Cofrestrydd Cyffredinol, St Catherine's House, 10 Kingsway, Llundain WC2V 6JV – pwyswch am ffurflenni dwyieithog yng Nghymru ac am gwestiwn am y niferoedd sy'n siarad Cymraeg y tu allan i Gymru.***


**LYNN JONES**

Buddsoddiadau
Yswiriant Bywyd
Pensiynnau

Aelod o FIMBRA

30 Highfields, Llandâf,
Caerdydd CF5 2QB

Ffôn (0222) 562816



## Ar Werth

Fflat 2 stafell wely
Y Cilgant (The Crescent),
Llandaf

Am fwy o wybodaeth
ffoniwch 560962



## Angen

Cymro / Cymraes
broffesiynol i rannu tŷ
yn Nhreganna.
£130 y mis.

Ffôn 230337


# y Sêr

**Eiry Palfrey**



### Aries
Dyma'r mis y dylech chi gael gwared o'r holl lythyron yna sydd wedi bod yn pentyrru ers tro, a gwneud y galwadau ffôn hynny y buoch yn addo eu gwneud ers hydoedd. Ewch ati Aries i glirio'r ddesg a'ch cydwybod, a throi tudalen newydd ar gyfer pethau gwych i ddod.

### Taurus
Mi fyddwch wrth eich bodd y mis hwn yn rhoi trefn ar eich materion ariannol, mae hynny'n rhoi bodlonrwydd a sicrwydd mawr i chi fel rheol. Cadwch yr ardd dan reolaeth hefyd, peidiwch â'i hesgeuluso neu mi fydd mwy na chwyn yn eich poeni. Mi fyddwch yn llawn syniadau gwreiddiol ddechrau'r mis.

### Gemini
Mae'r haul a Mercher yn eich arwydd am gyfran helaeth o'r mis hwn, cyfnod ardderchog felly i ddechrau pennod yn eich bywyd, clirio'r byrddau a dechrau o'r newydd. Mi fyddwch yn llawn ynni a syniadau gwreiddiol newydd. Ond ceisiwch wneud amser i ymlacio rhag i'ch iechyd ddioddef.

### Cancer
Gorffwyswch ddechrau'r mis gan y bydd eich egni'n isel, ond o'r 6ed ymlaen mi fydd pethau'n gwella'n feunyddiol a mae'r cyfnod o'r 14eg i'r 16eg yn un lwcus iawn, ac wrth gwrs pan fydd yr haul yn symud i'ch arwydd ar yr 22ain fydd dim peidio ar eich ynni a'ch lwc dda.

### Leo
Mae hon wedi bod yn flwyddyn dda iawn hyd yma, ond y mis yma, yn enwedig tua'i ganol, fyddwch chi ddim yn gallu credu'ch lwc. Mi fydd pethau da yn disgyn arnoch o bob cyfeiriad. Gwnewch yn fawr ohonynt, rhowch hwb fach iddynt, peidiwch â bod yn ddiog. Gwyn eich byd!

### Virgo
Mi ddylech fod yn llwyddiannus yn eich gwaith y mis hwn, mae'n bosib iawn y cewch ddyrchafiad neu godiad ariannol. Efallai bydd rhywun agos i chi yn eich synnu mewn ffordd anarferol iawn. Cadwch feddwl agored a pheidiwch â bod yn rhy feirniadol ohonynt.

### Libra
Ydych chi wedi pacio'ch bagiau eto Libra? Na? Wel ewch ati – mae gwyliau ar y gorwel! Mwynhewch! Ac os ydych wedi trefnu i fynd rywle pell ac egsotig, mae'n bosib iawn y cewch ymwelydd o wlad dramor. Mae'r ysfa arnoch ar hyn o bryd i ehangu'ch gorwelion.

### Scorpio
Mae ysbeidiau o lwc yn dod eich ffordd y mis hwn, ar adegau pan na fyddwch yn eu disgwyl. Gofalwch am eich iechyd ddechrau'r mis, peidiwch â gwthio'ch hun yn ormodol. Ac erbyn canol Mehefin mi fyddwch yn llawn ynni ac yn barod i ymgodymu â phob math o broblemau.


### Sagittarius
Mi ddylai hwn fod yn fis lwcus iawn mewn sawl adran o'ch bywyd, mae'n bosib iawn y cewch arian annisgwyl o rywle, ond rydych chi'n gweithio'n rhy galed i'w fwynhau ar hyn o bryd. Peidiwch ag esgeuluso'ch cymar, neu mi fydd yn edifar gennych maes o law.

### Capricorn
Mae llawer o waith caled o'ch blaen y mis hwn, ac efallai bydd gofyn i chi ddechrau partneriaeth newydd o ryw fath. Os ydych am arwyddo unrhyw ddogfen gyfreithiol gofalwch eich bod yn darllen y print mân yn fanwl iawn, mae lefel o dwyll o'ch cwmpas ar hyn o bryd.

### Aquarius
Mis creadigol, pan fydd plant yn chwarae rhan bwysig ac yn dod â llawer o bleser i chi. Does dim llawer o ynni gyda chi ar hyn o bryd felly cymrwch bethau gan bwyll bach, rhowch eich traed i fyny a sbwyliwch eich hun! A gwnewch yn siwr fod eich sefyllfa ariannol yn dal dŵr.

### Pisces
Os ydych wedi meddwl symud tŷ mae'n bosib y bydd pethau'n dechrau symud y mis hwn, ond cofiwch gymryd pethau un cam ar y tro – peidiwch â rhuthro i arwyddo cytundeb gan fod rhywfaint o dwyll o'ch cwmpas. Mae'n bosib y cewch gyfle i gymryd gwyliau annisgwyl ddechrau'r mis.

## CROESAIR AP LEWSYN
## Rhif 110 Mehefin 1991



### Ar draws
7. Dacw dy nain, yn dal dy ffetan (5)
8. Iws anghyfreithlon o ddafn cemydd, wedi siglo'r botel (9)
9. Bro yng Ngwynedd i ddisgynyddion Aquila? (5)
10. Gardd y mae'n rhaid ei phalu yn hirymarhous (9)
12. Merch Rhys ap Tewdwr yn sefyll ar ganol y fferi i ollwng golau i'r tŷ (8)
13. Cartref y brodyr Llwyd, o bosib (5)
16. Fe aiff Byrti â ni i drafferth (7)
17. Swyddogaeth cwplws (7)
20. Hyd yma, defnydd crai sydd yn fy mrawd (5)
22. Anghydweld parthed nodau tôn ynghau yn y trefniant (8)
24. Well Drychau sydd yma yn tasgu'r golau yn ôl (9)
27. Cyfiawnder i'r Cymro! (6,3)
28. Gadael un o'r copïau ar yr uchelfannau (5)

### I lawr
1. Un o'r cast ar y maes (8)
2. Iaith lafar barchus? (7,3)
3. Blaidd am droi yn dyner! (7)
4. Gair i nifer o bobl (5)
5. Hydrin yw un a fu yn y môr (4)
6. Tollti a diwel yn sydet (6)
11. Sefyll fel hyn, yn sydyn, heb symud (5)
13. Byd tlws fo i ni pan ddaw creaduriaid i drefn (10)
15. "___________ dy waith, O Arglwydd mawr" (John Roberts) (5)
18. Aflonydd yw traean dda o weithwyr y ffas lo am natur eu gwaith (8)
19. Rhywbeth rhwng traha a bodlonrwydd cyfiawn (7)
21. Gwelwch mai drwom y gwnaed y cylch euraid (6)
23. Trwyddi hi rwy'n syrthio ar fy mai, neu yn arddel fy nghred (5)
25. Y bocsys olaf i'w llenwi (4)

### Cystadleuaeth 109
Daeth 14 datrysiad i law – a phob un yn gywir. Yr enw a dynnwyd ar hap o'r bocs oedd Eira M Jones, 66 Stryd Gelligaer, Cathays, Caerdydd. Ac fe fydd y tocyn llyfr ar ei ffordd iddi cyn bo hir.

Enwau y rhai cywir ond anlwcus yw: Buddug Roberts, Yr Eglwys Newydd; B T, Cyncoed; A R R, Abertawe; Gwenllian Gwyn Jones, Yr Eglwys Newydd; Marged Davies, Llandaf; N Mathias, Castellnewydd Emlyn; B H Cyncoed; Marged Jones, Cyncoed; Myfi Cosslett, Y Mynydd Bychan; Mair Tysul Jones, Yr Eglwys Newydd; J Lloyd, Ger-y-llyn; John G Breese, Glanyrafon; a Gwenda Hopkins, Llanisien.

### Cystadleuaeth 110
Tocyn llyfr gwerth £5 eto. Eich enw a'ch cyfeiriad ar ymyl y croesair i gyrraedd Ap Lewsyn, 13 Rannoch Drive, Cyncoed, Caerdydd erbyn Mehefin 20fed os gwelwch yn dda.

### Datrysiad rhif 109




y Dinesydd

**Golygydd:** Siân Emlyn, 5 Yr Hen Dŷ, Heol Fair, Llandaf, Caerdydd CF5 2EE. 0222 567438
**Dylunio ac argraffu:** Sureit Cyhoeddiadau Torfol, 10 Meingruffydd Drive, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF4 7HS. 0222 521192 Fax 0222 521553
Pob gohebiaeth at y golygydd. Nid yw cynnwys yr erthyglau a gyhoeddir yn y Dinesydd o reidrwydd yn adlewyrchu barn y cyhoeddwyr.


© Y Dinesydd 1991


14,400 o ddarllenwyr. Dyddiad cyhoeddi 7 Mehefin 1991


# Eryrod Parc Ninian

## *Golwg yn ôl ar dymor di-ddim i dîm pêl-droed Caerdydd*

Wyddech chi mai eleni oedd tymor gwaethaf tîm pêl-droed Caerdydd ers iddynt ymuno â'r Gynhrair dros 70 mlynedd yn ôl?

O ganlyniad, roedd hi'n anochel na fyddai cytundeb y rheolwr, Len Ashurst, yn cael ei adnewyddu. Cymrodd at yr awenau ym 1989, a gwelodd y tîm yn disgyn i'r bedwaredd adran yn ystod ei dymor cyntaf. Eleni aeth pethau o ddrwg i waeth.

Safle tua canol y Bedwaredd Adran oedd ein bara beunyddiol ond gydag ambell ffiasgo i dorri'r undonedd, yn enwedig yn y Cwpanau gan golli i Hayes a Merthyr, timau o'r tu allan i'r prif gynghreiriau. A hyn i gyd ar ôl dechrau addawol i'r tymor wrth i'r gêm ffynnu ar ôl methiant llwyddiannus Lloegr â la Eddie'r Eryr yng Nghwpan y Byd.

Am unwaith roedd gan bêl-droed ddelwedd bositif a phrin bu raid i'r asiantau marchnata gnoi cil. Pam felly ymysg 92 aelod y gynghrair mai Caerdydd oedd yr unig glwb heb noddwr drwy gydol y tymor? Mae'n anodd credu bod tîm ein prifddinas yn wrthun gan bawb.

Yn anffodus, dim ond un enghraifft ymhlith rhestr faith o gam-reoli yw hon. Honnir bod y clwb yn colli £5,000 yr wythnos ac yn ystod y tymor cafwyd helbulon ariannol gyda Heddlu De Cymru, yr awdurdodau lleol, Cymdeithas Pêl-droed Cymru, a chwmnïau bysiau. Gwaharddwyd y clwb rhag prynu a gwerthu chwaraewyr oherwydd diffyg taliadau i rai chwaraewyr, ac i goroni'r cwbl rhoddwyd pen rhyddid i ladron lleol wagio coffrau'r clwb ddwywaith o fewn blwyddyn.

Mae'r Cadeirydd presennol, Tony Clemo, wedi bod yn ceisio gwerthu ei fuddiannau yn y clwb ers dwy flynedd, ond heb lwyddo eto i daro bargen â neb. Prin yw ei ymrwymiad i'r clwb bellach, a gyda'i fuddsoddiad yn llai fyth o'r herwydd, nid yw'n fawr o syndod gweld y dirywiad yn y tîm ac adnoddau'r clwb.

Ddwy flynedd yn ôl ni fuddsoddwyd mewn chwaraewyr pan oedd y clwb yn y Drydedd Adran; bellach nid oes digon o dalent yn y tîm i ennill dyrchafiad o'r Bedwaredd.

Ond clwb heb uchelgais fu Caerdydd erioed. Mae hanes yn profi y gwerthir y chwaraewyr gorau yn ddi-eithriad – y brodyr Bennett, Andy Dibble, a Kevin Bartlett yn ystod y blynyddoedd olaf. A'r enghraifft ddisgleiriaf ohonynt i gyd, John Toshack, a werthwyd mewn cyfnod pan oedd yr Adran Gyntaf yn galw. Ers y diwrnod hwnnw mae'r clwb wedi bod yn disgyn i'r pydew sy'n gartref iddynt heddiw.

A beth am y dyfodol? Ar y cae, mae cnewyllyn ifanc a dawnus i'r tîm, a gyda chwaraewyr fel Perry, Blake a Searle mae gobaith am welliant a photensial i'w ddatblygu. Dim ond gobeithio mai yn y crys glas y gwelir cyflawni'r potensial hwnnw.

A chynlluniau Clemo? Er frênwêf ddiweddaraf i achub y clwb oedd ystyried strwythur rhan-amser – syniad sydd bellach ond atgof hunllefus ond yn brawf nad yw'r gŵr yn deilwng i warchod etifeddiaeth a dyfodol y clwb.

Gyda llaw, bydd pris mynediad i gêmau Caerdydd yn codi 30% y tymor nesaf. Fe ddisgwyliwn gynnydd tebyg yn safon y chwarae.


**Pa bapur Cymraeg arall sy'n cyrraedd 14,000+ o bobol Caerdydd?**

**Dim un.**

**Hysbysebwch yn y Dinesydd**

**ffoniwch Caerdydd 521192 neu fax 521553**

# Hwyl Gŵyl Ifan

Y 24ain o fis Mehefin yw gŵyl geni Ioan Fedyddiwr, ac i ddathlu'r achlysur mae Cwmni Dawns Werin Caerdydd eleni eto wedi trefnu penwythnos o ddawnsio Gŵyl Ifan.

Hon yw'r pymthegfed gŵyl i'r cwmni i'w threfnu. Sefydlwyd Gw^yl Ifan fel gŵyl ddawns flynyddol ym 1976, flwyddyn ar ôl cynnal gŵyl haf y Gymdeithas Ddawns Werin yng Nghaerdydd.

Bellach mae'r ŵyl wedi tyfu o fod yn ddathliad diwrnod i dridiau o hyd.

Mae traddodiad dawnsio Nantgarw yn cynnwys dawns Gŵyl Ifan, a bachwyd yr ŵyl ar y cysylltiad hwnnw.

Yn ogystal â chynnal traddodiad dawnsfeydd Nantgarw, mae Gŵyl Ifan hefyd wedi atgyfodi nifer o draddodiadau gwerin eraill Morgannwg, fel codi'r Pawl Haf oedd yn draddodiad yn y Fro.

Bydd y Pawl Haf eleni yn cael ei godi ddydd Sadwrn yr 22ain yn Sain Ffagan, ac mae'r Amgueddfa Werin wedi plethu rhan o'u dathliadau Celtiaid Cymru o gwmpas yr achlysur.

Rhoddir gwahoddiad i bob tîm dawnsio yng Nghymru i berfformio yng Ngŵyl Ifan, ac eleni eto gellir disgwyl tua 300 o ddawnswyr i ddod i Gaerdydd, gan gynnwys dawnswyr a cherddorion Kevrenn Alre o Auray yn Llydaw, a dawnswyr gwerin Touchstone o Gaerfaddon.

Bydd yr ŵyl yn cychwyn mewn twmpath yng Ngwesty'r Parc nos Wener 21 Mehefin, ac estynnir croeso i bawb. Pris y tocynnau yw £2.50, ar gael drwy ffonio 565101 neu 563989.



• Dawnswyr Trebuden o Lydaw, yn diddanu yn Heol y Frenhines yn ystod Gŵyl Ifan y llynedd

Y bore Sadwrn canlynol bydd Gorymdaith fawr yn gadael Neuadd y Ddinas am 11 o'r gloch, gan blethu drwy'r ddinas ar hyd Ffordd y Brenin i Heol Eglwys Fair, heilio i'r Holiday Inn, ac i fyny at Neuadd Dewi Sant.

Bydd dawnswyr yn perfformio ar Lefel 3 Neuadd Dewi Sant fel rhan o ŵyl Canwr y Byd Caerdydd eleni.

Yn y prynhawn bydd y dathliadau yn symud i Sain Ffagan ar gyfer cinio a chodi'r Pawl Haf. Yno addurnir y Pawl Haf â rhubanau cyn dawnsio o'i gwmpas.

Yna nôl i'r dre ar gyfer cynnal prif ddathliadau y 15fed Gŵyl Ifan ar dir y Castell, lle bydd pob tîm dawnsio yn perfformio dawnsfeydd o Gymru a thu hwnt.

Parheir â'r dathliadau yn y nos, gyda gwledd a dawnsio mewn taplas yn Neuadd y Ddinas. £9.50 yw pris tocyn i hwn, ar gael drwy ffonio'r rhifau uchod.

Drwy gydol dydd Sul yng Ngwesty'r Parc, bydd dawnswyr o Gymru, Llydaw a Lloegr yn dangos camau rhai o'u dawnsfeydd mewn gweithdai.

Yn nes ymlaen yn y prynhawn bydd rhai o'r dawnswyr hefyd yn perfformio mewn gwyliau yn Fferm y Fforest ac yn y Bae.

***Gwledd o ddawns felly ar gyfer Gŵyl Ifan 1991, 21-23 Mehefin.***


Amgueddfa Werin Cymru
Sain Ffagan, Caerdydd

## GŴYL WERIN GELTAIDD

**Sadwrn Mehefin 22ain**

gyda
**Robin Williamson**
**Ar Log**
**Hin Deg**

Dawnswyr a cherddorion
o Gymru, Iwerddon a Llydaw
Codi'r Fedwen Haf

Telynau, crwth a phibau
arddangosfa ar offerynnau traddodiadol

Nansi: Brenhines y Delyn
teyrnged mewn darluniau
i delynores enwocaf Cymru

*am fanylion pellach cysyllter â'r*
*Adran Cysylltiadau Cyhoeddus/Marchnata*
*Amgueddfa Genedlaethol Cymru*
*Sain Ffagan*
*Caerdydd CF5 6XB*


## y Calendar

**12 Mehefin**
Helfa Drysor mewn ceir. Cychwyn o flaen Canolfan yr Urdd am 6.30pm, a chroeso i bawb – gan gynnwys pobol heb gar! Trefnir gan CYD De Morgannwg. Manylion: 693254

**15 Mehefin**
Yr Amgueddfa Genedlaethol – Fforwm Undydd ar y Bardd Celtaidd, dan nawdd Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru a'r Amgueddfa Genedlaethol

**20 - 22 Mehefin**
Gŵyl Flodau yn Eglwys Ebeneser, Heol Siarl, o 10am - 5pm bob dydd, gydag egwyl gerddorol a lluniaeth

**26 Mehefin**
Cylch Cinio Cymraeg y Barri a'r Fro – Dr Glyn Evans Jones

**13 Medi**
Cyngerdd gyda Stuart Burrows a Chôr Ieuenctid De Morgannwg, yn y Theatr Ddarlithio, Ysbyty'r Brifysgol. Tocynnau ar gael nawr am £5 (£3 gostyngedig) wrth Anne Innes, ffôn 616230. Elw tuag at Sefydliad Clefyd y Galon


## Ar Osod

Fflat moethus ar osod
yn Llanuwchllyn,
i gysgu pedwar oedolyn.
Cot baban ar gael

Ffoniwch 0678 4687


## Y llon a'r lleddf

• Cydymdeimlwn â Joan a Ben Thomas, Susan a Huw a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth sydyn. Bu farw mam Joan yng Nghaerfyrddin.

• Cydymdeimlwn â theulu Hywel Williams fu farw'n ddiweddar. Arferai Hywel weithio yn y BBC. Meddyliwn am ei weddw Einan, ei ferch Bethan a'i fab Dr Eifion Williams.


• Dymunwn y gorau i Gwenlyn Parry ar ôl iddo dreulio tymor yn yr ysbyty. Deallwn ei fod adre yn cryfhau.

• Dymuniadau gorau i Jeff James gafodd ei daro'n wael yn ddiweddar. Mae'n dda gwybod bod Jeff bellach adre ac yn disgwyl ei ail ŵyr (neu wyres) yn ystod yr wythnosau nesa.

• Cydymdeimlwn â theulu Mr a Mrs Moelwyn Preece ar eu profedigaeth o golli Mam, Mamgu a Hen Famgu.

# Mae'r Neges yn y Gân

*Arloeswyr adloniant ysgafn Cymraeg*


DOD Â'R CYMRY AT EI GILYDD

BANGOR CAERDYDD CAERFYRDDIN YR WYDDGRUG